Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3009/22

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddClimate@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddLJC@senedd.cymru

28 Chwefror 2023

Annwyl pawb

Rwy'n falch o rannu gyda chi a'ch Pwyllgorau y Cytundeb Fframwaith Amlinellol terfynol ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (FOA) a'r Concordat cysylltiedig, i gyd-daro â'u cyhoeddiad.

Mae'r FOA yn sefydlu disgwyliadau cyffredin ynghylch meysydd allweddol o gydweithrediad wrth weithredu Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU (ETS y DU), yng nghyd-destun ymadawiad y DU â'r UE. Cytunodd pob un o bedair gweinyddiaeth y DU i weithio gyda'i gilydd i sefydlu dulliau cyffredin, a elwir yn Fframweithiau Cyffredin, mewn meysydd polisi a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfraith yr UE, ac sy'n croestorri â meysydd o gymhwysedd datganoledig. Mae'r Concordat yn sefydlu fframwaith llywodraethu lle bydd penderfyniadau sy'n ymwneud ag ETS y DU yn cael eu gwneud.

Mae swyddogion yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'u cyd-swyddogion ledled y DU, wedi bod yn gweithio ar y cyd i ddatblygu'r FOA hwn a'r Concordat.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Email@llyw.cymru
Email@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gellir gweld y dogfennau hyn yn:
https://www.gov.uk/government/publications/uk-emissions-trading-scheme-common-framework

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change